OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 56

# Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016

## RHAN 5

Gwybodaeth ac ymweliadau safle

### Sylwadau sydd i'w cymryd i ystyriaeth

**14.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru ddiystyru unrhyw sylw a wneir ar ôl diwedd y cyfnod sylwadau, ac eithrio sylwadau a ddeisyfwyd yn unol â rheoliad 15.

(2) Y sylwadau y cyfeirir atynt yn y rheoliad hwn yw sylwadau a ragnodir yn erthygl 28 o Orchymyn 2016 at ddibenion adran 71(2)(a) o Ddeddf 1990 (ymgyngoriadau mewn cysylltiad â phenderfyniadau o dan adran 70).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 14 mewn grym ar 1.3.2016, gweler **rhl. 1(2)**

### Gwybodaeth bellach

**15.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru ddeisyf sylwadau pellach gan—

(a) y ceisydd;

(b) yr awdurdod cynllunio lleol; ac

(c) unrhyw berson â buddiant([1]) a wnaeth sylwadau mewn perthynas â'r cais yn ystod y cyfnod sylwadau.

(2) Yn benodol, caiff Gweinidogion Cymru ddeisyf mewn ysgrifen y canlynol—

(a) gan y person sy'n gwneud unrhyw sylw, nifer penodedig o gopïau ychwanegol o'r sylw hwnnw;

(b) ymatebion i gwestiynau a ofynnir gan Weinidogion Cymru ynghylch materion sy'n gynwysedig mewn unrhyw sylw.

(3) Rhaid i bob sylw ar unrhyw fater penodol a gyflwynir yn dilyn deisyfiad beidio â bod yn fwy na 3,000 o eiriau, a rhaid ei gyflwyno—

(a) yn y modd a bennir gan Weinidogion Cymru;

(b) ddim hwyrach na phedair wythnos ar ôl dyddiad y deisyfiad o dan baragraff (1).

(4) Caiff Gweinidogion Cymru ddiystyru unrhyw sylw—

(a) sy'n cyrraedd yn hwyr neu mewn modd gwahanol i'r modd a bennwyd;

([1]) Diffinnir "interested person" ("*person â buddiant*") yn adran 319B(8A) o Ddeddf 1990. Mewnosodwyd is-adran (8A) gan adran 27 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 a pharagraff 20(4) o Atodlen 4 i'r Ddeddf honno.

(b) sy'n fwy na 3,000 o eiriau;

(c) yr ystyriant yn wacsaw neu'n flinderus; neu

(d) sy'n ymwneud â rhinweddau polisi a nodir mewn cynllun datblygu neu mewn unrhyw ddatganiad polisi perthnasol a wnaed neu a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru.

(5) Os digwydd bod sylw ysgrifenedig yn fwy na 3,000 o eiriau, caiff Gweinidogion Cymru ddychwelyd y sylw at y person sy'n ei gyflwyno, gyda deisyfiad ei fod yn ailgyflwyno'r sylw mewn ffurf nad yw'n fwy na 3,000 o eiriau, a hynny o fewn pa bynnag amser a ddatgenir gan Weinidogion Cymru wrth ddychwelyd y sylw.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru, yn ôl eu disgresiwn mewn unrhyw achos penodol, gynyddu'r nifer o eiriau ym mharagraff (3); ac yn unol â hynny, mae cyfeiriadau ar y nifer mwyaf o eiriau yn gyfeiriadau at y nifer ar ôl ei gynyddu felly.

(7) Rhaid i Weinidogion Cymru roi'r holl sylwadau ysgrifenedig ac ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a geir ganddynt ar gael ym mha bynnag fodd a ystyrir yn briodol gan Weinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 15 mewn grym ar 1.3.2016, gweler **rhl. 1(2)**

**Arolygiadau safle**

**16.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru arolygu'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef.

(2) Pan fo Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud arolygiad o dan baragraff (1), cânt hysbysu'r ceisydd ac unrhyw berson arall ynghylch dyddiad ac amser yr arolygiad.

(3) Nid yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru ohirio arolygiad pan nad yw unrhyw berson (gan gynnwys y ceisydd) yn bresennol ar yr amser penodedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Rhl. 16 mewn grym ar 1.3.2016, gweler **rhl. 1(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016, RHAN 5.